# Astudiaethau achos ynghylch adrodd am gyfreithiwr

Wedi'i gyhoeddi ar 23 Mai 2024

English [https://news.sra.org.uk/consumers/problems/report-solicitor/case-studies-reporting-solicitor/] Cymraeg

Os ydych yn ystyried adrodd am gyfreithiwr neu gwmni, mae rhai pethau y mae angen i chi wybod. Cyn adrodd am eich pryderon, darllenwch yr enghreifftiau isod a gwiriwch ein canllaw ar adrodd am gyfreithiwr [https://news.sra.org.uk/consumers/problems/report-solicitor/] .

Open all [#]

## Enghraifft 1: Camgymeriad y mae cyfreithiwr wedi'i wneud

Mae eich cyfreithiwr yn gwneud camgymeriad ac nid yw'n cyflwyno'ch hawliad yn erbyn eich cymydog i'r llys o fewn y terfyn amser caeth a ganiateir. Mae hyn yn golygu na allwch ddwyn eich hawliad yn erbyn eich cymydog.

Mae hyn yn peri gofid mawr ac nid dyma'r gwasanaeth yr oedd gennych yr hawl i'w ddisgwyl gan eich cyfreithiwr. Fodd bynnag, mae gan y cyfreithiwr yswiriant proffesiynol yn ei le, sydd ei angen arnom, fel bod cleientiaid wedi'u diogelu'n ariannol os bydd camgymeriadau'n digwydd.

Bydd p'un a fyddwn yn ymchwilio yn dibynnu ar nifer o bethau gwahanol. Bydd rhai ffeithiau yn ein gwneud yn fwy tebygol o ymchwilio. Bydd eraill yn ein gwneud yn llai tebygol o ymchwilio. Byddwn yn pwyso a mesur yr holl ffeithiau o blaid ac yn erbyn ymchwilio ac yn gwneud penderfyniad.

### Ffeithiau sy'n ein gwneud yn fwy tebygol o ymchwilio

- Mae'r cyfreithiwr wedi cuddio'r camgymeriad ac nid yw wedi bod yn onest amdano.
- Nid yw'r cyfreithiwr yn dangos unrhyw fewnwelediad ynghylch sut y digwyddodd y camgymeriad ac nid yw'n delio'n briodol ag unrhyw gŵyn neu hawliad, gyda ni neu reoleiddiwr arall.
- Rydym wedi derbyn adroddiad arall, neu mae Ombwdsmon y Gyfraith wedi dweud wrthym am adroddiadau y mae wedi'u derbyn, sy'n awgrymu patrwm o bryderon tebyg yn cael eu codi gan eraill.
- Mae'r cyfreithiwr wedi cael rhybudd neu gyngor ar fater tebyg o'r blaen ac nid yw wedi cymryd unrhyw gamau i wella.

### Ffeithiau sy'n ein gwneud ni'n llai tebygol o ymchwilio

- Mae'r cyfreithiwr wedi bod yn agored ac yn onest am yr hyn sydd wedi digwydd ac wedi eich cynghori i geisio cyngor cyfreithiol.
- Mae'r cyfreithiwr wedi talu unrhyw iawndal y mae Ombwdsmon y Gyfraith yn ei ddweud sydd ei angen arno a/neu ei fod ef (neu ei yswirwyr) yn delio ag unrhyw hawliad yn briodol.
- Mae'r cyfreithiwr wedi rhoi prosesau newydd ar waith i geisio osgoi problem debyg rhag digwydd yn y dyfodol.
- Nid oes patrwm o gwynion tebyg am y cwmni.
- Roedd yn gamgymeriad gwirioneddol.

## Enghraifft 2: Gweithredu ar ran dau barti – gwrthdaro buddiannau

Mae eich partner a chi wedi bod yn briod ers 15 mlynedd. Saith mlynedd yn ôl fe ddefnyddioch chi gwmni cyfreithwyr lleol i brynu tŷ gyda'ch gilydd. Mae eich priodas wedi methu, ac rydych bellach wedi derbyn llythyr gan yr un cyfreithiwr yn cadarnhau eu bod yn gweithredu ar ran eich gwraig yn unig a'i bod hi'n ceisio ysgariad. Rydych yn credu bod y cyfreithiwr yn gweithredu mewn gwrthdaro, gan ei fod wedi gweithredu ar ran y ddau ohonoch yn flaenorol.

Ni fyddwn yn ymchwilio i’r mater hwn. Rydym yn cydnabod bod ysgariad yn peri gofid a straen, ond yn yr achos hwn, nid yw'n torri ein rheolau. Er mwyn gweithredu mewn gwrthdaro rhaid i'r cyfreithiwr fod yn gweithredu ar ran dau barti ac yn methu â gweithredu er lles gorau'r ddau ar yr un pryd. Er bod eich buddiannau chi a buddiannau eich gwraig bellach yn gwrthdaro, dim ond ar gyfer un parti y mae'r cyfreithiwr yn gweithredu nawr felly ni all fod yn gweithredu mewn gwrthdaro.

Y mater arall y byddem yn ei ystyried yma yw a oedd y cyfreithiwr wedi cael unrhyw wybodaeth gyfrinachol gennych chi yn y trafodiad cynharach nad oedd yn hysbys i'ch gwraig ac sy’n berthnasol i'r cyfarwyddyd newydd. Os felly, byddai dyletswydd arnynt i ddatgelu hyn i'ch gwraig ar yr un pryd ag y byddai dyletswydd arnynt i chi i gadw hyn yn gyfrinachol. Fodd bynnag, mae hyn yn annhebygol iawn o fod yn wir yma, gan i chi brynu'r tŷ gyda'ch gilydd, felly ni fyddem yn ymchwilio.

## Enghraifft 3: Pryderon ynghylch llofnodi ewyllys

Yn anffodus mae eich perthynas oedrannus wedi marw. Roeddech yn credu bod eich perthynas yn mynd i adael popeth i chi yn ei hewyllys. Rydych wedi darganfod ei bod wedi gwneud ewyllys newydd ychydig cyn ei marwolaeth a adawodd rywfaint o arian i chi ond a oedd yn cynnwys cymynrodd fawr i elusen. Rydych yn credu nad oedd ganddi'r gallu i wneud yr ewyllys ac yn meddwl bod yn rhaid i'r cyfreithiwr sy'n gweithredu ar ei rhan fod yn anghymwys.

Ein ffocws yma fydd ystyried a yw'r cyfreithiwr wedi gweithredu' briodol wrth ddod i'w farn broffesiynol ynghylch gallu ei gleient. Wrth ystyried a

ddylem ymchwilio i hyn, byddwn yn gofyn i'r cyfreithiwr roi gwybodaeth inni ynghylch sut y daeth i'r penderfyniad ynghylch galluedd. Os bydd cyfreithiwr yn dangos ei fod wedi meddwl am y mater, wedi gwneud unrhyw ymholiadau priodol ac wedi dod i benderfyniad rhesymegol, rydym yn annhebygol o ymchwilio.

Pe bai dangosyddion amlwg o analluogrwydd, na chawsant eu hystyried, yna rydym yn debygol o ymchwilio. Wrth benderfynu pa gamau i'w cymryd, byddwn yn ystyried difrifoldeb yr achos unigol gan gynnwys pa mor agored i niwed yw'r cleient, a oes cwynion eraill wedi'u gwneud ac a oes patrwm o'r materion hyn yn y cwmni.

Nid oes gennym unrhyw gylch gwaith i ddod i gasgliad ynghylch gallu eich perthynas i wneud y penderfyniad. Ni allwn wneud unrhyw benderfyniad ynghylch a yw'r ewyllys yn ddilys ai peidio. Mae hwn yn fater cyfreithiol. Os dymunwch herio dilysrwydd yr ewyllys, bydd angen i chi geisio cyngor cyfreithiol ac ystyried a ydych yn dymuno gwneud her gyfreithiol i'r ewyllys. Nid yw hyn yn rhywbeth y gallwn eich helpu i'w wneud.

## Enghraifft 4: Hacio e-bost/Seiberdroseddu

Roeddech yn defnyddio cwmni cyfreithiwr i brynu tŷ. Yn ystod y trafodiad, gwnaeth twyllwr hacio i mewn i gyfrif e-bost y cwmni, ac anfonodd y cwmni eich arian prynu tŷ (£300,000) yn anghywir i gyfrif twyllwr dramor.

Rydych chi a'r cwmni wedi dioddef sgam. Nid oedd unrhyw fwriad gan y cwmni i chi golli eich arian. Byddwn yn gwneud ymholiadau i'r cwmni i benderfynu a ddylem ymchwilio ai peidio.

Bydd p'un a fyddwn yn ymchwilio yn dibynnu ar nifer o bethau gwahanol. Bydd rhai ffeithiau yn ein gwneud yn fwy tebygol o ymchwilio. Bydd eraill yn ein gwneud yn llai tebygol o ymchwilio. Byddwn yn pwyso a mesur yr holl ffeithiau o blaid ac yn erbyn ymchwilio ac yn gwneud penderfyniad.

### Ffeithiau sy'n ein gwneud yn fwy tebygol o ymchwilio

- Mae'r arian wedi'i dalu allan o gyfrif y cleient gan y cwmni ac nid yw wedi cael ei ddisodli, gan adael diffyg yn y cyfrif cleient.
- Nid yw'r cyfreithiwr yn dangos unrhyw fewnwelediad i sut y digwyddodd y mater ac nid yw wedi adrodd am y mater i ni ac Action Fraud.
- Nid oedd gan y cyfreithiwr amddiffyniadau diogelwch rhesymol ar waith a/neu nid yw'n cymryd camau priodol i wella diogelwch y cwmni.

### Ffeithiau sy'n ein gwneud ni'n llai tebygol o ymchwilio

- Mae'r arian wedi'i ddisodli'n gyflym gan y cwmni neu ei yswirwyr.
- Mae'r cyfreithiwr wedi gwneud adroddiadau priodol i ni ac Action Fraud.

## Enghraifft 5: Pryderon am fil eich cyfreithiwr

Mae cyfreithiwr wedi gweithredu ar eich rhan mewn perthynas ag anghydfod cyflogaeth. Gwnaethoch golli'r achos, ac rydych yn anfodlon â'r costau. Nid oedd y cyfreithiwr bob amser yn ymateb i'ch galwadau ac mae wedi codi tua 20% yn fwy na'r disgwyl. Rydych wedi cwyno i'r cwmni, ac maen nhw wedi cynnig gostyngiad o £300 i chi ar eich bil, ond rydych yn parhau i fod yn anfodlon.

Ni fyddwn yn ymchwilio i'r mater hwn. Rydych yn anfodlon â'r gwasanaeth a gawsoch gan y cwmni. Gallwch gysylltu ag Ombwdsmon y Gyfraith i weld a fydd yn ystyried y mater ymhellach ac yn eich helpu i ddatrys eich pryderon. Efallai y bydd Ombwdsmon y Gyfraith yn gofyn i’r cwmni leihau ei fil ymhellach os yw'n nodi bod gwasanaeth y cwmni’n wael neu os nad yw wedi rhoi gwybod i chi am ei gostau. Os bydd Ombwdsmon y Gyfraith yn nodi unrhyw achosion o dorri ein rheolau wrth ystyried y mater, mae gennym gytundeb ag ef y bydd yn cyfeirio'r pryderon ymddygiad atom.

## Enghraifft 6: Pryderon am fil cyfreithiwr

Mae gan eich ewythr oedrannus broblemau symudedd ac mae wedi gorfod symud i gartref gofal yn ddiweddar. Chi yw ei unig berthynas. Mae gan ei gyfreithiwr Atwrneiaeth Arhosol (LPA) ynghylch ei faterion ariannol. Rydych wedi bod yn teithio dramor ac felly tan yn ddiweddar nid ydych wedi ymweld llawer â'ch ewythr. Fodd bynnag, yn ystod eich ymweliadau diweddar â'ch ewythr, mae wedi mynd yn eithaf trallodus ynghylch ei sefyllfa ariannol. Mae wedi egluro wrthych ei fod yn bryderus iawn am y ffioedd cyfreithiol y mae’n eu cael. Mae'n poeni am redeg allan o arian. Mae wedi dweud wrthych ei fod wedi cwyno i'w gyfreithiwr fod eu ffioedd yn rhy ddrud, ond dywedodd y cyfreithiwr wrtho fod llawer o waith angen ei wneud ac os nad yw’n talu ei filiau yna efallai y bydd eich ewythr yn colli ei dŷ. Mae eich ewythr yn dangos yr anfonebau y mae wedi'u derbyn gan y cyfreithiwr, ac rydych wedi’ch synnu o weld bod y cwmni wedi bod yn anfonebu £10,000 y mis i'ch ewythr am reoli ei LPA a gofalu am ei dŷ.

Byddem yn gofyn i chi am gopi o'r anfonebau sydd gan eich ewythr yn ymwneud â'r gwaith a wnaed. Rydym yn debygol o ymchwilio i’r mater hwn. Mae eich ewythr yn gleient bregus, ac ar yr wyneb mae'r biliau hyn yn swnio'n anghymesur. Byddem yn pryderu y gallai'r cyfreithiwr fod yn anonest ac yn manteisio ar fregusrwydd eich ewythr trwy godi ffioedd chwyddedig.

## Enghraifft 7: Pryderon am gyfreithiwr eich cyn-bartner mewn ysgariad

Rydych chi a'ch gŵr yn ysgaru. Mae'ch gŵr a chi'n anghytuno ynghylch pryd y methodd y briodas. Rydych yn credu bod cyfreithiwr eich gŵr yn ymosodol iawn ac yn ailadrodd ei gelwyddau. Mae'n ceisio cadw'r tŷ sy'n wirioneddol annheg gan eich bod wedi gwario llawer o'ch arian yn ei atgyweirio. Mae hi'n gwadu bod hynny'n wir – sy'n gelwydd.

Mae'n bosib y byddwn yn gofyn i chi ddarparu copi o unrhyw lythyr a gawsoch yn ymosodol i wirio nad yw'r iaith a'r naws yn rhy fygythiol neu amhriodol. Fodd bynnag, yn y rhan fwyaf o achosion, ni fydd llythyr wedi'i eirio'n gadarn yn nodi achos cleient yn gyfystyr â chamymddwyn. Mae ysgariad yn achosi llawer o straen, ac yn aml mae cyfrifon gwahanol gan y ddwy ochr ynghylch yr hyn a ddigwyddodd a phwy sydd â hawl i beth. Rôl cyfreithiwr yw nodi achos ei gleient, a bydd eich gŵr wedi dweud wrth y cyfreithiwr ei fersiwn ef o'r digwyddiadau. Mater i'r llys yw gwneud canfyddiadau os na all y partïon ddod i gytundeb eu hunain.

## Enghraifft 8: Pryderon bod eich cyfreithiwr yn eich camarwain ynghylch hynt eich hawliad

Rydych yn berchen ar fusnes bach. Cyfarwyddodd eich busnes gyfreithiwr i ddwyn achos yn erbyn cwmni TG. Cyhoeddodd y cyfreithiwr hawliad, ac mae wedi bod yn eich diweddaru bob mis ac yn darparu copïau o orchmynion gan y llys i chi. Roeddech yn deall bod yr hawliad yn mynd rhagddo a byddai gwrandawiad terfynol yn cael ei gynnal ymhen rhyw chwe mis.

Fodd bynnag, yr wythnos ddiwethaf daeth beilïaid i'ch cyfeiriad busnes ac esbonio bod dros £6,000 yn ddyledus i'r cwmni TG. Rhoddodd y beilïaid gopi o orchymyn gan y llys dyddiedig chwe mis yn ôl i chi. Dangosodd fod eich hawliad wedi methu a bod gan eich busnes tua £6,000 o gostau yn ddyledus. Gwnaethoch ffonio'r llys, a chadarnhaodd fod eich achos wedi cael ei daflu allan chwe mis yn ôl. Anfonodd y llys gopi o'i orchymyn atoch, sydd yr un fath â'r hyn a ddarparwyd gan y beilïaid.

Byddem yn gofyn i chi ddarparu copïau o'r ohebiaeth rydych wedi sôn amdani gan y beilïaid, eich cyfreithiwr a'r llys. Rydym yn debygol o ymchwilio i'r mater hwn. Yn ôl pob golwg y wybodaeth rydych wedi'i rhoi i ni, byddwn yn pryderu bod y cyfreithiwr wedi bod yn anonest am yr hyn a ddigwyddodd yn eich achos ac wedi eich camarwain.

Mae'n bwysig deall, er y gallwn ystyried camymddygiad y cyfreithiwr, ni allwn eich helpu i atal y cwmni TG rhag adennill ei ddyled na'ch helpu i herio'r costau sy'n ddyledus. Efallai y byddwch am gael cyngor cyfreithiol i ddeall beth yw eich opsiynau mewn perthynas â'r ddyled.

## Enghraifft 9: Pryderon am lythyr gan gyfreithiwr yn gofyn am dalu dyled

Rydych wedi cael gwaith adeiladu wedi'i wneud ar eich tŷ. Rydych yn anhapus gyda'r canlyniad, felly nid ydych wedi talu'r adeiladwr. Rydych wedi derbyn llythyr gan gwmni sy'n gweithredu ar ran yr adeiladwr yn gofyn am dâl am y gwaith. Mae'r llythyr yn dweud, os na fydd yr arian yn cael ei dderbyn o fewn 21 diwrnod, bydd ei gleient yn cymryd camau cyfreithiol i adennill yr anfoneb sy'n ddyledus. Rydych yn credu bod hyn yn gwbl ddiangen ac yn fygythiol. Mae'r llythyr yn eich gwneud yn bryderus iawn.

Mae’n bosib y byddwn yn gofyn i chi ddarparu copi o unrhyw lythyr a gawsoch yn ymosodol i wirio nad yw'r iaith a'r naws yn rhy fygythiol neu amhriodol. Fodd bynnag, yn y rhan fwyaf o achosion, ni fydd llythyr wedi'i eirio'n gadarn yn nodi achos cleient yn gyfystyr â chamymddwyn. Rydym yn gwerthfawrogi y gallai derbyn llythyr o'r fath fod yn ofidus, yn enwedig gan eich bod yn anhapus gyda gwaith yr adeiladwr. Fodd bynnag, mae hwn yn anghydfod cyfreithiol rhyngoch chi a'r adeiladwr ynghylch ansawdd y gwaith a thaliad ei anfoneb. Efallai y byddwch am geisio cyngor cyfreithiol.